

Philip Lloyd ar drywydd **Delweddau Byw o'r Gorffennol**

F'E'M penodwyd yn Warden ar Ganolfan Athrawon Y Rhyl ym 1972, ac o fewn wythnosau cefais wahoddiad gan Glwb Rotari y dref i siarad am fy ngwaith. Dwn i ddim faint elwach oedd yr aelodau o wrando ar un mor ddi-brofiad, ond bu'r achlysur yn gyfrwng i agor maes newydd a chyffrous i mi - achub hen ffilmiau. Ymhlith y Rotariaid y diwrnod hwnnw roedd gŵr o'r enw Eric Foulkes. Roedd ef, a'i dad o'i flaen, wedi bod mewn busnes yn Y Rhyl am flynyddoedd lawer, a rhywsut neu'i gilydd wedi cael gafael ar gasgliad o ffilmiau *ciné* lleol o tua 1900 a 1920. Gwerthfawrogai fy niddordeb yn hanes y dref, a'r canlyniad fu iddo ymddiried y cyfan imi.

Hyd at tua 1950, byddai ffilmiau *ciné* yn cael eu cynhyrchu ar ddeunydd 'nitrate' hyllog. Yr unig ffordd i'w hachub i'r oesoedd a ddél yw drwy eu copio ar ddeunydd 'acetate' diogel. Cyn cyfarfod â mi, roedd Eric Foulkes wedi cynnig ei gasgliad i'r National Film Archive yn Llundain, ond doedden nhw ddim wedi gweld yn dda copio pob un o'r ffilmiau. Felly, dechreuais ar tua phum mlynedd o geisio nawdd i ddiogelu'r gweddill. Cefais gymorth gan y Cyngor Ysgolion (prif hyrwyddwr datblygiadau cwricwlwm yr adeg honno), Clwb Rotari Y Rhyl, Archifdy Clwyd a chefnogwyr eraill.

Y RHYL, RHOSYGWALIA A LLANELWY

Oherwydd ffydd Eric Foulkes ynof a haelioni sefydliadau ac unigolion o weledigaeth, gall cynulleidfaoedd heddiw wyllo parti adloniant *E. H. Williams's Merrie Men* yn perfformio ar draeth Y Rhyl ym 1899 a phlant yn rhuthro allan o ysgolion yn y dref ym 1903. Dyna ddwy o gynhyrchion yr arloeswr Arthur Cheetham, y cefais ran yn eu diogelu. Er nad Cymro ydoedd yn wreiddiol, y gŵr busnes amryddawn yma o'r Rhyl oedd yr un cyntaf yng Nghymru i gynhyrchu ac arddangos ei ffilmiau ei hun.

Gwaith y Brodyr Shannon (*The Shannon Film Company*) oedd y ffilmiau o'r 1920au a achubwyd, yn cynnwys dau 'Diwrnod Bad Achub' Y Rhyl: cwch chwyldroadol y Richardsoniaid o Rosygwaliau, ger Y Bala yn cael ei dynnu gan geffylau drwy'r strydoedd, ei lansio i'r môr ac yna ei dynnu i fyny'r traeth i'w gwt ar ddiwedd y dydd. Hefyd: *Scenes at the enthronement ceremony of the Archbishop of Wales at St. Asaph, June 1st 1920*. Rhag ofn i neb feddwl bod y ffilm hon yn cynnwys y gwasanaeth urddasol yng Nghadeirlan Llanelwy, brysiad i egluro mai'r orymdaith i lawr y Stryd Fawr sydd ynddi yn bennaf, gyda'r *Three Archbishops* (Caer-gaint, Caerefrog a Chymru) yn cyd-gerdded yn hamddenol.

O ABER I GAER VIA CHEADLE

On nid dyna ddiwedd y stori. Ym 1976/77 dilynais gwrs M.Add. yng Ngholeg Aberystwyth. Pan soniais am fy niddordeb yn Cheetham wrth Mrs Dilys Gravelle, fy lletyraig yn Ffordd y Buarth, dywedodd fod yr arloeswr a'i deulu wedi bod â'u sinema yn y dref am flynyddoedd.

'Rhaid ichi fynd i weld Mr a Mrs Millichamp', meddai. 'Fe fuon nhw'n gweithio yno.'

Roedd y pâr oedranus yn byw mewn tŷ teras ger yr harbwr, a'r cyngor a gefais ganddyn nhw oedd i gysylltu â Mr Jarman, gynt o'r Llyfrgell Genedlaethol, a oedd wedi ymddeol i bentref Ceri, ger Y Drenewydd.

Gan Mr Jarman, dros y ffôn, cefais gyfeiriad merch i Cheetham, Mrs Caudery, dros ei hwythdeg oed, a oedd yn byw yn Cheadle, ger Manceinion. I Cheadle â mi, felly, i'w gweld.

'You must see my nephew, Stanley Cheetham, who lives in Chester. He may have something interesting to show you', oedd ei chynghor hi.

Cefais groeso cynnes gan Stanley Cheetham a'i wraig, ond doedd ganddo ddim llawer o ddi-ddordeb yng nghampau ei daid. Roedd ei ffilmiau'n hen, hen hanes, meddai, a bu sôn amdany'n nhw hyd at syrffed yn y teulu. Ond i fyny'r grisiau ag ef, ac i lawr gyda llond cist o ffilmiau a fu ynghudd o dan y gwely yn un o'r Hofftydd ers blynyddoedd. (I'w barhau)



Y sgets ddigri, *The School* gan y *Merrie Men* (o ffilm gan Arthur Cheetham, 1899).



Chwarae 'Sigo Pont y Mulod' ar y stryd (o ffilm gan Arthur Cheetham, 1903).



Diwrnod Bad Achub Y Rhyl (o ffilm gan Gwenni Shannon, 1920).



Arthur Cheetham a'i wraig ar ffilm yn mhriodas un o'u meibion, 1913.